


# Gwerthusiad o'r Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ar gyfer Troseddau Cyfundrefnol Difrifol

## Crynodeb gweithredol

Mawrth 2024

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o ganfyddiadau'r gwerthusiad dulliau cymysg a gomisiynwyd gan Gweithredu dros Blant. Nod y gwerthusiad oedd archwilio gweithrediad, darpariaeth ac effaith y Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ar gyfer Troseddau Cyfundrefnol Difrifol.

## Cefndir

Mae troseddau difrifol a chyfundrefnol (SOC) yn cyfeirio at unigolion sy'n cynllunio, yn cydlynu ac yn cyflawni troseddau difrifol, naill ai'n unigol, mewn grwpiau neu fel rhan o rwydweithiau trawswladol (yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, 2023). Mae'n cynnwys caethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl, cyffuriau a/neu arfau anghyfreithlon, gwyngalchu arian, llwgrwobrwyo, a llygredigaeth (yr Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol, 2021). Yn 2022, roedd yna 7,936 o ddioddefwyr posibl camfanteisio yn y DU (yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, 2023). O'r rhain, roedd 52% yn blant, a rhoddwyd gwybod i'r awdurdodau am y rhan fwyaf o'r achosion hyn am fod camfanteisio troseddol yn digwydd. Mae'r nifer gwirioneddol yn debygol o fod yn uwch gan fod yna ddiffyg adrodd i'r awdurdodau am bob math o gamfanteisio.

Mae grwpiau troseddau cyfundrefnol yn cael eu gweithredu gan oedolion sy'n manteisio ar y diffyg cyfleoedd cyfreithlon i blant a phobl ifanc, y cyfaredd tybiedig sy'n perthyn i droseddu, a chamfanteisio troseddol neu ariannol (Ashton, 2020). Er y gall unrhyw unigolyn ifanc gael ei dargedu, daeth dadansoddiad manwl Hurley a Boulton (2021) i'r casgliad y dylai ymyriadau ganolbwyntio ar bobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig ac iddynt lefelau uchel o ddisgyblion wedi'u gwahardd o'r ysgol ac sydd wedi profi trawma sylweddol yn eu bywydau. O ran camfanteisio, canfuwyd bod pobl ifanc ag anghenion heb eu diwallu a'r rheiny â hunanbarch a hyder isel mewn mwy o berygl (Radcliffe et al., 2020). Eto i gyd, mae canfyddiadau ymchwil diweddar wedi amlygu heriau o ran nodi ac ymgysylltu â phlant y camfanteisir arnynt yn droseddol, a'u cynorthwyo i adael perthnasoedd camfanteisiol mewn modd diogel (Maxwell a Wallace, 2021). Datgelodd Firmin (2018) gyfyngiadau o ran y graddau yr oedd systemau presennol wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â niwed y tu allan i'r teulu. Caiff hyn ei waethygu gan natur camfanteisio troseddol oherwydd efallai na fydd pobl ifanc yn ymddangos yn "ddioddefwyr" ystrydebol a gallant wrthod ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol oherwydd profiadau negyddol gyda gweithwyr proffesiynol, y diwylliant yn erbyn datgelu gwybodaeth i'r awdurdodau, neu oherwydd bod arnynt ofn y byddan nhw a'u teuluoedd yn dioddef ôl-effeithiau treisgar (Bonning a Cleaver, 2020, Shaw a Greenhow, 2020, Maxwell a Wallace, 2021).

Mae ymdrechion i fynd i'r afael â throseddau cyfundrefnol difrifol yn cael eu llywio gan bolisïau a ddatblygwyd gan Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac fe'u rhoddir ar waith gan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol. Eto i gyd, nid oes unrhyw asiantaeth benodol yn gyfrifol am fynd i'r afael â throseddau cyfundrefnol difrifol. Roedd cynllun blynyddol 2022-23 (yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, 2022) yn pwysleisio'r angen am ragor o weithio mewn partneriaeth, gyda'r Alban yn galw am ddulliau mwy arloesol a rhagweithiol o ymateb i fygythiad troseddau cyfundrefnol difrifol.

Mae Pecyn Cymorth y Swyddfa Gartref ar gyfer Ymarferwyr (2021) yn argymell y dylai ymyriadau ar gyfer troseddau cyfundrefnol

difrifol fod yn ystyriol o drawma ac y dylent fabwysiadu dull cyfannol o fynd i'r afael ag anghenion nas diwallwyd y plentyn neu'r person ifanc, a hynny trwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Mae'r pecyn cymorth yn cyfeirio at Wasanaeth Ymyrraeth Gynnar ar gyfer Troseddau Cyfundrefnol Difrifol Gweithredu dros Blant gan nodi ei fod yn enghraifft o arfer da.

# Y Gwasanaeth

Mae Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ar gyfer Troseddau Cyfundrefnol Difrifol (y cyfeirir ato fel 'y Gwasanaeth' o hyn ymlaen) yn wasanaeth arloesol gan Gweithredu dros Blant sydd wedi'i anelu at bobl ifanc 11-18 oed. Nod y Gwasanaeth yw nodi pobl ifanc sy'n ymwneud â throseddau cyfundrefnol difrifol, neu sydd mewn perygl o hynny, gan fynd i'r afael â'r gwendidau a'u harweiniodd i ymwneud â hynny, a'u cyfeirio at lwybrau mwy cadarnhaol. Sefydlwyd model y Gwasanaeth yn Glasgow yn 2013. Yn dilyn ei lwyddiant, cafodd Gweithredu dros Blant gyllid gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i brofi'r model ar bedwar safle ledled tair cenedl: Caerdydd, Dundee, Caeredin a Newcastle.

# Y Fethodoleg

Defnyddiodd y gwerthusiad ddull theori rhaglen i nodi elfennau craidd y Gwasanaeth. Roedd iddo bedwar amcan:

1. Casglu gwybodaeth yn ymwneud ag elfennau allweddol y Gwasanaeth
2. Rhoi darlun o'r modd yr oedd pobl ifanc yn dechrau ymwneud â'r Gwasanaeth, a'u taith trwyddo
3. Archwilio barn pobl ifanc, rhieni, partneriaid, ymarferwyr a mentoriaid cymheiriaid am 'yr hyn sy'n gweithio'
4. Archwilio dichonoldeb defnyddio data'r heddlu i asesu canlyniadau'r Gwasanaeth.

Roedd y broses casglu data, yn unol ag amcanion yr ymchwil, yn cynnwys pedwar cam:

### A. Dadansoddiad dogfennol

Er mwyn nodi elfennau craidd y rhaglen, dadansoddwyd llawlyfrau, adroddiadau a dogfennaeth y Gwasanaeth o bob un o'r pedair ardal. Ategwyd hyn gan gyfweliadau lled-strwythuredig gyda thri rheolwr Gwasanaeth a oedd yn eu swyddi ar adeg y cyfweliad.

### B. Ffeiliau achosion a chyfweliadau: Staff y Gwasanaeth a sefydliadau partner

Er mwyn rhoi darlun o'r modd yr oedd pobl ifanc yn dechrau ymwneud â'r Gwasanaeth, a'u taith trwyddo, gofynnwyd am ffeiliau achosion dienw o bob ardal. Roedd data'r ffeiliau achosion yn cynnwys ffurflenni atgyfeirio, asesiadau risg, ffurflenni diogelu cyd-destunol a chynlluniau ymyrryd.

Er mwyn cynyddu dealltwriaeth o weithrediad a darpariaeth y Gwasanaeth, cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig ag un ar ddeg o ymarferwyr. O'r rhain, roedd gan sawl un brofiad bywyd o droseddau ieuenctid a/neu wedi bod yn fentor cymheiriaid cyn cael dyrchafiad. At hynny, cynhaliwyd cyfweliad ag un mentor cymheiriaid o'r Gwasanaeth.

I archwilio'r broses o weithredu a gweithio mewn partneriaeth, cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig â deg sefydliad partner.

### C. Ffeiliau achosion a chyfweliadau: Pobl ifanc, rhieni a gofalwyr

I asesu teithiau pobl ifanc trwy'r Gwasanaeth, diweddarwyd data'r ffeiliau achosion flwyddyn yn ddiweddarach. Ategwyd hyn gan gyfweliadau lled-strwythuredig ag un ar ddeg o bobl ifanc a deunaw o ofalwyr i archwilio eu barn am y Gwasanaeth a'u profiadau ohono.


### Ch. Dadansoddi data'r Gwasanaeth a data'r heddlu, a grwpiau ffocws: Staff a chydgysylltwyr y Gwasanaeth

Er mwyn archwilio ymarferoldeb defnyddio data'r heddlu i asesu canlyniadau'r Gwasanaeth, cafwyd data gweinyddol yr heddlu ar gyfer pobl ifanc a oedd yn ymgysylltu â'r Gwasanaeth ('ymgysylltwyr') a grŵp cymharu o bobl ifanc nad oeddent wedi ymgysylltu â'r Gwasanaeth ('cymaryddion'). Yn unol ag egwyddorion cymeradwyaeth foesegol ar gyfer yr astudiaeth, anfonwyd rhestr o ymgysylltwyr at bob llu heddlu cyfatebol gan Gweithredu dros Blant: Heddlu De Cymru (Caerdydd), Heddlu Northumbria (Newcastle) a Heddlu'r Alban (Dundee a Chaeredin). Roedd data'r heddlu'n cynnwys data demograffig, ynghyd â data am droseddau, arestiadau ac unigolion coll ar gyfer y ddau grŵp.

Er mwyn casglu gwybodaeth am ganlyniadau ar gyfer yr ymgysylltwyr, cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda phedwar rheolwr Gwasanaeth. Archwiliodd grwpiau ffocws ddatblygiadau i'r gwasanaeth ar lefel strategol o ran canlyniadau, rhannu gwybodaeth, gweithio mewn partneriaeth, a'r daith i ymatal rhag troseddu.

## Theori'r rhaglen

Ategwyd theori rhaglen y Gwasanaeth gan bum cam: bod yn gaeth, derbyn cymorth, credu a rhoi cynnig arni, dysgu beth sy'n gweithio, a hunanddibyniaeth (Mackeith et al., 2017). Roedd model y Gwasanaeth hefyd yn tynnu ar ddamcaniaeth wybyddol-gymdeithasol (Bandura, 1986) sy'n haeru bod dysgu'n cael ei greu yn gymdeithasol yn seiliedig ar y modd y mae unigolion yn dehongli eu hamgylchedd ac yn hunanreoleiddio eu meddyliau a'u hymddygiadau. O ran y Gwasanaeth, roedd dysgu gan bobl ifanc yn cael ei gyfryngu gan ryngweithiadau cilyddol rhwng ffactorau personol megis hunangred a disgwyliadau, ffactorau ymddygiadol a ffactorau amgylcheddol, gan gynnwys y cyd-destunau cymdeithasol a ffisegol.



## Galluogwyr

### Targedu ar sail cudd-wybodaeth

Roedd y Gwasanaeth yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i dargedu pobl ifanc yr oedd troseddau cyfundrefnol difrifol neu gamfanteisio ar fin effeithio arnynt, neu wedi effeithio arnynt. Y prif reswm dros atgyfeirio oedd camfanteisio, wedi'i ddilyn gan gysylltiad â grŵp troseddau cyfundrefnol difrifol, ad-droseddu ac ymwneud â gwerthu cyffuriau. Prif ffynhonnell yr atgyfeiriadau oedd y Gwasanaethau Plant, ac yna'r Heddlu a'r Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid. Cafodd hyn ei hwyluso trwy gytundebau rhannu gwybodaeth a'i gefnogi gan arbenigedd y Gwasanaeth. At hynny, dylanwadodd y Gwasanaeth mewn modd cadarnhaol ar y ffordd yr oedd sefydliadau partner yn ymdrin â chamfanteisio, a llywiodd eu defnydd iaith i sicrhau nad oedd yna awgrym bod pobl ifanc yn cael eu beio am i rywrai gamfanteisio arnynt.

### Gwasanaethau allgymorth dyfal

Cymerodd amser i ymgysylltu â phobl ifanc. Nid oedd rhai pobl ifanc yn ymddiried mewn gweithwyr proffesiynol oherwydd profiadau negyddol blaenorol a phesimistiaeth ynghylch y rôl y gall gwasanaethau ei chwarae yn eu bywydau (Menezes a Whyte, 2016). Amlygodd gwerthusiad Hyder (2021) o Wasanaeth Glasgow sut y gall pobl ifanc y mae troseddau cyfundrefnol difrifol a chamfanteisio yn effeithio arnynt deimlo'n gaeth heb unrhyw fodd o ddianc. Goresgynnodd y Gwasanaeth y rhwystrau hyn i ymgysylltu trwy wasanaethau allgymorth dyfal a defnyddio strategaethau amryfal megis dyfalbarhad a meithrin perthnasoedd â rhieni neu ofalwyr.

*"Roedd y bachgen ifanc wedi bod allan o'r ysgol am ddwy flynedd. Roedd yn anodd ymgysylltu ag ef, felly dyfalbarhad amdani. Byddem yn mynd at y drws, yn curo'n ysgafn, yn dechrau meithrin perthynas â'i ofalwr, ac fe weithiodd hynny'n dda iawn"*

*(LAURA, CYFWELIAD AG AELOD O STAFF)*

Addasodd y Gwasanaeth i'r cyd-destun lleol hefyd, '*oherwydd nid oes pwynt gwneud rhywbeth nad yw'n cyd-fynd â'r ardal yr ydych yn ceisio ei roi ar waith ynddi*' (Duncan, cyfweliad ag aelod o staff). Ailbwysleisiwyd hyn hyn gan gynrychiolwyr o sefydliadau partner a ddywedodd fod y Gwasanaeth yn ategu'r ddarpariaeth bresennol yn y maes.

### Ymgysylltu

Ymgysylltodd y Gwasanaeth â 248 o bobl ifanc rhwng mis Gorffennaf 2020 a mis Ionawr 2023. Roedd mwyafrif y bobl ifanc yn wrywod gwyn a oedd ag oedran cyfartalog o 15 oed. Mae hyn yn cefnogi canfyddiadau gwerthusiad Glasgow (Hyder, 2021) lle roedd mwyafrif y bobl ifanc yn wrywod rhwng 14 ac 16 oed ar adeg yr atgyfeiriad.

Yn unol â natur bwrpasol y Gwasanaeth, nid oedd yna un ymyriad a oedd yn addas i bawb. Roedd y Gwasanaeth yn cefnogi pobl ifanc ar eu telerau eu hunain ac o'r herwydd, roedd hyd yr ymgysylltu a'r broses o ddarparu'r ymyriad yn amrywio'n sylweddol yn unol â phob un o'r unigolion ifanc.

*Nid yw'n gymorth y byddwch yn ei gael yn unman arall, wyddoch chi? Mae'n gymorth go iawn. Nid yw hyn ..., fel, ... yn aml gyda'r gweithwyr [eraill] hyn, os ydych yn ddigon effro, byddwch yn sylwi ei fod fel pe baen nhw dim ond yn gwneud eu gwaith. Ond yn achos [yr Ymarferydd] mae bron fel pe bai'n gwneud ei waith, ac yn gwneud pethau ychwanegol ar ben hynny, wyddoch chi?.*

*(JUSTIN, CYFWELIAD AG UNIGOLYN IFANC)*

Trwy fabwysiadu Gwasanaeth penagored, roedd pobl ifanc yn gallu cael cymorth pan oedd arnynt ei angen. Felly, gellid ail-atgyfeirio pobl ifanc pe bai angen a byddau

eraill yn cynnal cysylltiad anffurfiol â'r Gwasanaeth ar ôl i'w hachosion gael eu cau.

## Elfennau'r rhaglen

### Asesiad o anghenion

Yn hytrach na mabwysiadu model diffyg, dechreuodd y Gwasanaeth ymgysylltu trwy gael sgwrs seiliedig ar gryfderau, a oedd yn canolbwyntio ar y plentyn, am anghenion pobl ifanc a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol gan ddefnyddio'r Justice Star. Aeth yr asesiad hwn y tu hwnt i gamfanteisio er mwyn nodi'r anghenion heb eu diwallu a oedd yn gwneud pobl ifanc yn agored i'r perygl y byddai rhywun yn meithrin perthynas amhriodol â nhw, yn ogystal â nodi eu cryfderau. O ran yr ail elfen, nod y Gwasanaeth oedd sianelu'r asedau hyn mewn modd cadarnhaol, gan rymuso pobl ifanc i ddewis dyfodol gwell (Paul Carberry, Cyfarwyddwr Gweithredu dros Blant a ddyfynnwyd gan Hyder, 2021:ii).

Yr anghenion mwyaf cyffredin oedd rheoleiddio emosiynol, ffordd o feddwl ac ymddygiad, a pherthnasoedd. Nodwyd amrywiadau yn ôl yr ardaloedd, ynghyd â chyfeiriad at fapio cymheiriaid a diogelu cyd-destunol. Roedd y cynlluniau ymyrryd yn cael eu teilwra i bob unigolyn yn unol â'r asesiad o anghenion.

Roedd y cynlluniau ymyrryd yn cynnwys:

- Cefnogaeth ar lefel unigol wedi'i darparu mewn cyfuniad o gymorth dwys un i un a – lle bo hynny'n briodol – gwaith grŵp, megis cymorth ariannol, cymorth emosiynol, canllawiau iechyd a llesiant, gwneud penderfyniadau, gweithgareddau i ddifyrru, meithrin sgiliau, a mynediad at hyfforddiant, addysg a chyflogaeth.
- Cymorth i deuluoedd, e.e. cymorth ariannol, cymorth emosiynol, cydnerthedd gofalwyr i aros gyda phobl ifanc a rheoli eu hymddygiadau.

O ganlyniad, nid oedd rhai canlyniadau yn 'lwyddiannau' mesuradwy ond yn hytrach yn ganlyniadau meddalach lle roedd pobl ifanc yn cymryd camau pendant tuag at lwybrau cadarnhaol. Yn benodol, roeddent yn cynnwys ymgysylltu'n gyson, hunanfyfyrio a pharodrwydd i ystyried canlyniadau eu gweithredoedd, ac ymrwymiad i roi cynnig ar weithgareddau rhag-gymdeithasol newydd.

### Cymorth y tu allan i oriau gwaith:

Yn ymarferol, dim ond mewn achosion brys y defnyddiwyd cymorth y tu allan i oriau gwaith. Serch hynny, roedd darparu cymorth y tu allan i oriau gwaith yn rhoi sicrwydd i bobl ifanc a gofalwyr bod cymorth ar gael pan fyddai arnynt ei angen.

### Cymorth ar lefel unigol

Roedd darparu cymorth wedi'i deilwra yn galluogi'r Gwasanaeth i weithio gyda phobl ifanc pan oeddent yn wynebu'r risg fwyaf o aildroseddu neu o gael rhywun yn camfanteisio arnynt. Roedd hyn yn cynnwys cyfuniad o ymyriadau arwahanol wedi'u targedu at yr asesiad o anghenion, a chymorth a oedd wedi'i ymgorffori mewn gweithgareddau a oedd yn seiliedig ar ddiddordebau'r unigolyn ifanc:

> *"Bydd yn mynd â fi allan am awr a jyst, ie, cael coffi neu rywbeth, ymlacio, gwneud beth bynnag, mynd am dro ar gefn beic neu rywbeth felly"*
>
> (KARL, CYFWELIAD AG UNIGOLYN IFANC)

Roedd darparu gweithgareddau hwyliog a oedd â'r nod o gynnal yr ymgysylltiad yn cael ei gydbwyso â'r gwaith o ddarparu ymyriadau â mwy o ffocws. Amlygwyd hefyd bwysigrwydd rhoi cyfle i bobl ifanc fod yn blant (LKMco, 2018).

## Hwyluswyr

### Oedolion y gellir ymddiried ynddynt

Roedd meithrin perthnasoedd o ymddiriedaeth â phobl ifanc a'u teuluoedd yn fecanwaith allweddol ar gyfer ysgogi newid. Roedd y perthnasoedd hyn yn seiliedig ar barch, rhoi gwerth ar pobl ifanc a bod yn onest ynghylch yr hyn y gallent ei gyflawni. Roeddent hefyd yn roi i'r unigolyn ifanc '*gysondeb o ran yr un person, yr un wyneb, yr un lle a'r holl bethau hynny*' (Erica, cyfweliad â phartner).

Roedd ymddiriedaeth hefyd yn cael ei meithrin yn aml trwy gyd-ddealltwriaeth o sut brofiad oedd cael eich magu yn yr ardal honno. Felly, rhoddodd y Gwasanaeth flaenoriaeth i recriwtio Ymarferwyr a Mentoriaid Cymheiriaid o'r un cymunedau lleol. O ran Ymarferwyr, roedd eu harbenigedd a'u sgiliau ym maes gwaith ieuenctid yn eu galluogi i weithio'n effeithiol gyda phobl ifanc yn y cyfnod pontio rhwng ieuenctid a bod yn oedolyn. Rhoddodd hyn y sgiliau iddynt symud rhwng tynnu coes yn chwareus a sgyrsiau anodd, gan gynnal y berthynas â'r unigolyn ifanc.

O ran Mentoriaid Cymheiriaid â phrofiad bywyd o droseddau cyfundrefnol difrifol neu gamfanteisio, roedd eu dilysrwydd yn rhoi dirnadaeth iddynt o fywydau'r bobl ifanc. Roedd hyn yn eu galluogi i herio ymddygiadau risg a chwestiynu naratifau pobl ifanc oherwydd '*rydym yn gwneud popeth y mae ef eisoes wedi'i wneud, felly mae'n gwybod sut bobl ydym ni*' (Finn, cyfweliad ag unigolyn ifanc). Roedd Mentoriaid Cymheiriaid yn rhoi ymdeimlad o obaith i bobl ifanc y gallent newid eu hymddygiadau a chychwyn ar lwybrau cadarnhaol.

## Lleihau ffactorau risg

### Cymorth ariannol

Disgrifiwyd tlodi fel y prif ffactor sy'n gefndir i gamfanteisio (Jay Review, 2024). Roedd llawer o'r bobl ifanc yn ei chael yn anodd prynu bwyd, dillad ac eitemau hanfodol megis gwely.

> *"Doedd ganddo ddim arian i brynu platiau a chwpanau a llwyau a phopty microdon, ond rydyn ni wedi cael yr holl bethau hynny trwy'r talebau hyn, felly mae 'nawr yn gallu fforddio prynu'r bwyd sy'n mynd ar y plât, sy'n llenwi ei fol, sy'n gwneud iddo deimlo ychydig yn well. Felly mae'n rhoi'r maetholion y mae arno eu hangen, yn rhoi'r egni y mae arno ei angen, ac efallai'n gwneud iddo deimlo ychydig yn well"*
>
> *(CHARLOTTE, CYFWELIAD AG AELOD O STAFF)*

Fel y disgrifiodd Charlotte, aeth y Gwasanaeth i'r afael ag anghenion byrdymor pobl ifanc trwy eu helpu i gael budd-daliadau ac i brynu bwyd a dillad. Ar gyfer y tymor hirach, roedd pobl ifanc yn cael cymorth i ddatblygu eu sgiliau cyllidebu. Fodd bynnag, fel y nodwyd yng ngwerthusiad Hyder (2021) o Wasanaeth Glasgow, roedd rhai o'r bobl ifanc yn byw mewn cartrefi cyfforddus gyda rhieni a oedd yn eu caru. Yn hyn o beth, gall unrhyw unigolyn ifanc ddioddef o gamfanteisio, ac o'r herwydd, bu'r Gwasanaeth yn gweithio gyda phobl ifanc ni waeth beth oedd eu cefndir.

### Cymorth emosiynol

I gefnogi canfyddiadau ehangach (Maxwell a Wallace, 2021; Radcliffe et al., 2020), roedd gan y rhan fwyaf o'r bobl ifanc hyder isel ac anghenion heb eu diwallu megis hunanwerth isel, diffyg pwrpas a dim ymdeimlad o berthyn. Rhoddodd y Gwasanaeth i'r bobl ifanc Oedolion y Gellid Ymddiried Ynddynt a oedd yn fodelau rôl hŷn cadarnhaol. Helpodd hyn i roi hwb i'w hyder a'u hymdeimlad o hunanwerth, yn enwedig wrth i'r Ymarferwyr

a'r Mentoriaid Cymheiriaid gymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog gyda nhw a'u helpu i feithrin eu sgiliau.

### Iechyd a llesiant

Roedd ar rai pobl ifanc angen cymorth o ran hunanofal, cael mynediad at ofal meddygol a chadw eu dillad a'u cartrefi'n lân. Roedd yr ymarferwyr yn darparu cymorth uniongyrchol megis addysgu sgiliau bywyd pwysig i'r bobl ifanc, ac yn anuniongyrchol trwy eu cludo i apwyntiadau meddygol.

## Gwella ffactorau amddiffynnol

### Gwneud penderfyniadau

Roedd y broses o wneud penderfyniadau wedi'i hymgorffori ar draws ymyriadau i hybu annibyniaeth a chydnerthedd rhag iddynt ddioddef eto o gamfanteisio. Roedd y Gwasanaeth yn darparu cyfleoedd amser real i'r bobl ifanc feithrin eu sgiliau gwneud penderfyniadau. Trwy fabwysiadu dull a arweinir gan bobl ifanc, roedd gan y bobl ifanc ymreolaeth ac roeddent yn gallu gwneud penderfyniadau am eu hymgysylltiad â'r Gwasanaeth a pha weithgareddau yr oeddent yn cymryd rhan ynddynt.

### Perthnasoedd iach

Yn hytrach na mynd i'r afael â chamfanteisio yn uniongyrchol, canfu'r Gwasanaeth y gallai hyn atal pobl rhag ymgysylltu.

*"Rydym yn cael y trafodaethau hynny â'r bobl ifanc ynghylch perthnasoedd iach, perthnasoedd nad ydynt yn rhai iach, ac weithiau dim ond eu helpu i gymryd camau bach trwy'r broses os nad yw'r person ifanc yn gwbl barod i glywed y gwirionedd plaen sef, 'Wyddost ti beth? Dydy e ddim yn ffrind i ti. Mae'n camfanteisio arnat ti.'"*

*(Jason, cyfweliad ag aelod o staff)*

Felly, rhoddwyd sylw i gamfanteisio mewn modd sensitif, gan gyfeirio at berthnasoedd nad ydynt yn rhai iach. Roedd hyn yn rhoi galluedd i'r bobl ifanc, fel y gallent fyfyrio ar eu perthnasoedd presennol. Roedd hyn yn cynnwys cymorth i feithrin cyfeillgarwch newydd a chryfhau cysylltiadau teuluol.

*"Nid yw wir am i'w deulu wybod na theimlo ei fod yn ei gael ei hun i drwbl weithiau, neu fod pethau'n mynd o chwith weithiau. Mae am i'w deulu ddal ati i feddwl ei fod yn fachgen da, a'n gwaith ni yw ei annog i barhau i fod yn fachgen da fel nad oes angen iddo boeni y bydd ei deulu yn newid eu barn amdano"*

*(Patrick, cyfweliad ag aelod o staff)*

### Meithrin sgiliau

Roedd diddordebau rhag-gymdeithasol yn cael eu hannog a'u datblygu trwy raglenni o weithgareddau a chyfleoedd cymunedol. Roedd pobl ifanc yn cael eu hannog i fynegi eu dyheadau a'u cefnogi i wireddu'r uchelgeisiau hyn trwy ddarparu cyfleoedd i feithrin sgiliau a gwirfoddoli. Roedd ymarferwyr yn helpu pobl ifanc i osod nodau iddynt eu hunain ac yn aros gyda nhw, hyd yn oed os byddent yn gwneud camgymeriadau. Roedd y bobl ifanc yn cael eu cyffroi a'u hysgogi gan y gweithgareddau a'r cyfleoedd a sicrhawyd ar eu cyfer. Roedd hyn yn cynyddu eu hunanhyder yn ogystal â meithrin eu sgiliau.

### Cymorth ar lefel y teulu

Er bod y Gwasanaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar gefnogi pobl ifanc, rhoddwyd sylw i'r teulu cyfan er mwyn gwella'r canlyniadau i bobl ifanc. Wrth wneud hynny, roedd yn cydnabod yr angen i gefnogi gofalwyr o ran cymorth ariannol ac emosiynol, perthnasoedd iach a sefydlu rhwydwaith cymorth. Yn yr un modd â'r canfyddiadau yn achos pobl ifanc, cafodd teuluoedd gymorth i sicrhau budd-daliadau a chyllid i brynu eitemau hanfodol ar gyfer eu cartrefi.

### Addasiadau lleol

Roedd y Gwasanaeth wedi ychwanegu dau estyniad mewn ymateb i'r cyd-destun lleol: gwaith ataliol mewn lleoliadau addysg a mapio achosion o gamfanteisio. Yn gyntaf, mae gwaith ataliol mewn lleoliadau addysg wedi'i sefydlu mewn un ardal. Mae hyn wedi'i dargedu at bobl ifanc sydd â lefelau uchel o absenoldeb a gwaharddiadau o'r ysgol, neu lle mae yna bryderon am gamfanteisio troseddol. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn ddull effeithiol o leihau risgiau yn achos mwyafrif y disgyblion a gymerodd ran. Yn ail, mae ymarfer mapio lleol wedi'i ddatblygu i lywio gwybodaeth a gwaith ymyrryd amlasiantaethol ledled y partneriaid mewn ardal arall. Cyfrannodd hyn at sefydlu rhwydwaith o dros 100 o bartneriaid a oedd yn ymrwymedig i ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol ar gyfer pobl ifanc y mae camfanteisio yn effeithio arnynt.

## Canlyniadau

### Cyfraddau troseddu a chyfnodau o fynd ar goll

Roedd mwyafrif y bobl ifanc a atgyfeiriwyd at y Gwasanaeth yn wyn, yn wrywaidd ac yng nghanol eu harddegau. Roedd tua hanner ohonynt yn byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig pob dinas (Mynegai Amddifadedd Lluosog, 2019).  Roedd saith deg saith y cant (190/248) o'r bobl ifanc a atgyfeiriwyd at y Gwasanaeth wedi'u nodi yn nata gweinyddol yr heddlu oherwydd eu hymddygiad troseddol neu gyfnodau o fynd ar goll.

Yn ôl data'r Heddlu, cafodd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc eu hatgyfeirio at y Gwasanaeth ar ôl iddynt gael eu harestio. Roedd gan dros 70% o'r bobl ifanc gofnod yn dangos eu bod wedi'u harestio droeon. Y prif droseddau oedd trais, troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus, troseddau'n ymwneud â chyffuriau, neu bod ag arf yn eu meddiant.

Ar ôl iddynt gael eu hatgyfeirio at y Gwasanaeth bu gostyngiad yn nifer y bobl ifanc a arestiwyd a nifer y troseddau yn achos tair o'r pedair ardal. Mewn dwy ardal bu gostyngiad yn nifer yr arestiadau a nifer y bobl ifanc a arestiwyd am droseddau'n ymwneud â chyffuriau. Gwelwyd gostyngiadau hefyd yn nifer yr arestiadau am fathau eraill o droseddau.

Yn hytrach na dangos bod y Gwasanaeth yn cael effaith negyddol, mae'r cynnydd yn nifer yr arestiadau mewn un ardal yn ategu canfyddiadau gwerthusiad Hyder o Wasanaeth Glasgow (2021), a oedd yn bedair blynedd o hyd, a ddangosodd nad yw ymddygiad troseddol pob unigolyn ifanc yn gostwng ar unwaith. Mae hyn i'w ddisgwyl gan y gall gadael perthnasoedd camfanteisiol mewn modd diogel gynyddu'r risg i'r unigolyn ifanc (Adolygiad Jay, 2024). At hynny, gallai ymgysylltu â'r Gwasanaeth atal eu sefyllfa rhag gwaethygu, '*mae'n waeth; nid yw cynddrwg ag y gallai fod hebddynt*' (Unigolyn ifanc a ddyfynnwyd yn Hyder, 2021:33).

Roedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc wedi cael cyfnodau o fynd ar goll cyn cael eu hatgyfeirio, ac roedd tri chwarter y bobl ifanc wedi cael sawl cyfnod o fynd ar goll. Ar ôl ymgysylltu â'r Gwasanaeth bu gostyngiad yn nifer y cyfnodau o fynd ar goll. Mae hwn yn ganfyddiad pwysig o ystyried y cysylltiad rhwng cyfnodau o fynd ar goll a chamfanteisio. Gallant fod yn arwydd i rybuddio gweithwyr proffesiynol bod unigolyn ifanc yn cael ei ddefnyddio neu ei ynysu'n gymdeithasol, yn ymgais i guddio'r unigolyn ifanc rhag goruchwyliaeth broffesiynol, neu'n ymgais gan yr unigolyn ifanc i ddianc rhag y bobl sy'n camfanteisio arno (Pearce et al., 2009; Sturrock a Holmes, 2015, Wigmore, 2018).

### Archwilio effaith y Gwasanaeth

Helpodd y Gwasanaeth bobl ifanc i godi eu dyheadau a gosod nodau i wireddu eu huchelgeisiau.

*"Rydw i am gael swydd adeiladu braf. Car neis ac yn y blaen"*

(ZACH, CYFWELIAD AG UNIGOLYN IFANC)

Er mwyn ysgogi newid, roedd ar bobl ifanc angen cymorth o ran canlyniadau meddalach ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol, gwella eu hyder a'u hunan-gred, a newid eu hagweddau a'u hymddygiadau negyddol.

*"Does gen i ddim cynifer o weithwyr 'nawr. Dim ond gyda [ymarferydd] a fy ngweithiwr cymdeithasol ydw i'n bennaf. Felly mae'n gweithio, mae'n gweithio'n dda ... Felly, wyddoch chi, mae llawer o, mae'n teimlo fel bod y pwysau wedi diflannu. Nid yw'n teimlo cymaint fel gweithiwr"*

*(JUSTIN, CYFWELIAD AG UNIGOLYN IFANC)*

Roedd yn rhaid symud y bobl ifanc '*o'u parth cysur arferol lle y gallent fod yn gaeth, a cheisio dangos iddynt fod yna fyd mwy allan yna'* (Ymarferydd). Ar ôl i'r bobl ifanc feithrin ymdeimlad o gyfeiriad (Menezes a Whyte, 2016), yn aml roedd ar bobl ifanc a'u teuluoedd angen cymorth ariannol ac ymarferol i ddechrau ar eu taith. Trwy fynd i'r afael â'r anghenion hyn nad oeddent wedi'u diwallu, sefydlodd yr Ymarferwyr a'r Mentoriaid Cymheiriaid berthnasoedd o ymddiriedaeth a rhoddwyd cyfle i'r bobl ifanc fyfyrio ar eu llwybrau presennol.

Roedd ar y bobl ifanc angen cymorth a chefnogaeth hefyd i sefydlu rhwydweithiau cymdeithasol cadarnhaol. Roedd darparu gweithgareddau grŵp yn eu helpu i feithrin cyfeillgarwch newydd a mynd i'r afael â gwrthdaro rhwng codau post, lle'r oedd yn ddiogel gwneud hynny. Trwy gynllunio a hwyluso gofalus, rhoddodd yr Ymarferwyr a'r Mentoriaid Cymheiriaid gyfleoedd amser real i'r bobl ifanc feithrin eu sgiliau cyfathrebu a rheoli gwrthdaro.

Roedd yr Ymarferwyr a'r Mentoriaid Cymheiriaid yn fodelau rôl. Roeddent yn modelu perthnasoedd cadarnhaol â sefydliadau partner i annog pobl ifanc i adeiladu rhwydweithiau cefnogol â gweithwyr proffesiynol eraill.

*"Ie, bydda i'n dweud rhywbeth fel 'Maen nhw'n ff*cin twpsod' ond wedyn byddan nhw'n dweud 'Ond... os na fyddi di'n ymgysylltu â'r bobl hyn yna bydd hyn yn digwydd, bydd hyn yn digwydd a bydd hyn yn digwydd. Felly a yw'n werth gwneud hynny mewn gwirionedd?' A byddan nhw'n esbonio pethau'n well nag y galla i feddwl am bethau, os ydych chi'n gwybod beth dw i'n ei olygu. Ac mae hynny'n fy helpu i mewn ffordd"*

*(PHILIP, CYFWELIAD AG UNIGOLYN IFANC)*

Roedd yr Ymarferwyr a'r Mentoriaid Cymheiriaid hefyd yn eirioli dros bobl ifanc i'w helpu i gael mynediad at gyfleoedd megis ailgysylltu ag addysg a llwybrau hyfforddi eraill.

## Casgliad

Mae'r Gwasanaeth wedi'i sefydlu ei hun yn wasanaeth arbenigol ar gyfer pobl ifanc sy'n ymwneud â throseddau cyfundrefnol difrifol neu y mae camfanteisio yn effeithio arnynt. Roedd y canfyddiadau'n dangos lefelau uchel o ymgysylltu er bod y grŵp hwn o bobl ifanc yn aml yn hysbys i'r heddlu oherwydd eu hymddygiadau troseddol, a hynny er gwaethaf y ffaith 'eu bod yn parhau i fod yn anhygyrch i raddau helaeth i ymdrechion y ddarpariaeth brif ffrwd' (Menezes a Whyte, 2016:8).

*"Doeddwn i ddim yn ymddiried ynddyn nhw ar unwaith. Ddim o gwbl. Ddim o gwbl. A dweud y gwir, roeddwn i'n meddwl eu bod nhw i gyd yn mynd i'm bradychu a cheisio*

*bwydo gwybodaeth i'r awdurdodau, ac yn y blaen"*

(FINN, CYFWELIAD AG UNIGOLYN IFANC)

Rhoddodd y Gwasanaeth le diogel i'r bobl ifanc fyfyrio ar eu bywydau ac ystyried eu perthnasoedd presennol a chanlyniadau posibl parhau ar y llwybrau negyddol hynny.

Yn wahanol i ymyriadau am gyfnod penodol, roedd y Gwasanaeth yn gallu aros gyda phobl ifanc a darparu cymorth dwys, wedi'i deilwra, ar gyflymder y person ifanc, cymorth a oedd yn ystyriol o'u hanghenion datblygiadol yn hytrach na darpariaeth ar sail oedran. Hwyluswyd hyn trwy recriwtio Ymarferwyr a Mentoriaid Cymheiriaid medrus iawn o'r cymunedau lleol lle'r oedd y bobl ifanc yn byw. Roedd hyn yn amlygu dilysrwydd ac yn eu helpu i sefydlu perthnasoedd o ymddiriedaeth a allai eu helpu i wneud eu penderfyniadau rhag-gymdeithasol a'u dewisiadau bywyd cadarnhaol eu hunain. At hynny, dywedodd y bobl ifanc y byddent yn argymell y Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ar gyfer Troseddau Cyfundrefnol Difrifol i bobl ifanc eraill oherwydd yr ystod o gyfleoedd a manteision a gynigiwyd iddynt mewn modd cefnogol.

## Cyfeiriadau


Ashton, S. A. a Bussu, A. (2020). Peer groups, street gangs and organised crime in the narratives of adolescent male offenders, *Journal of Criminal Psychology*, 10(4), 277-292.

Bandura, A. (1986) Social foundations of thought and action: A social cognitive theory. Englewood Cliffs, NJ: Prentice Hall.

Bonning, J. a Cleaver, K. (2020). 'There is no "war on drugs": An investigation into county line drug networks from the perspective of a London borough, *The Police Journal*.

Firmin, C. (2018) Contextual risk, individualised responses: an assessment of safeguarding responses to nine cases of peer-on-peer abuse, *Child Abuse Review*, 27(1), 42-57.

Y Swyddfa Gartref (2021) *Home Office Practitioner Toolkit*, Llundain, TSO.

Hurley, M.aBoulton, L.J. (2021). Early identification and intervention with individuals at risk of becoming involved in serious and organised crime (SOC), *Safer Communities*, 20()2, 73-84.

Hyder, N. (2021). *Side Step Evaluation 2018-2021*. Research Scotland.

Mynegai Amddifadedd Lluosog (2019). [https://data.cdrc.ac.uk/dataset/index-multiple-deprivation-imd](https://data.cdrc.ac.uk/dataset/index-multiple-deprivation-imd)

Jay Review of Criminally Exploited Children (2024). *Shattered Lives, Stolen Futures*. Yr Alban: Gweithredu dros Blant

LKMco (2018) *Forging futures through mentoring: A risk worth pursuing?* Y Comisiynydd Plant.

Mackeith, J., Burns, S., Lamont, E. a Good, A. (2017) Justice Star™ The Outcomes Star for people in the criminal justice system. Triangle Consulting Social Enterprise, Hove.

Maxwell, N. a Wallace, C. (2021) *Child criminal exploitation in Wales*. Adroddiad, Prifysgol Caerdydd: CASCADE.

Maxwell, N., Ablitt, J., Bennett, V., Bezeczky, Z., a Nightingale, M. (2023). *Gwerthusiad o'r Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ar gyfer Troseddau Cyfundrefnol Difrifol*, CASCADE, Prifysgol Caerdydd.

Maxwell, N., Bennett, V., Bezeczky, Z., Nightingale, M. ac Ablitt, J. (2024). *Y Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ar gyfer Troseddau Cyfundrefnol Difrifol: Defnyddio data'r heddlu i asesu canlyniadau'r gwasanaeth,* Caerdydd: CASCADE.

Maxwell, N., Williams, A., Ablitt, J., Bezeczky, Z., Thompson, S. a Crowley, A. (2022). *Y Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ar gyfer Troseddau Cyfundrefnol Difrifol: Adroddiad Gwerthuso Interim*, CASCADE, Prifysgol Caerdydd.

Menezes, D. a Whyte, B.A. (2016). Side Step Intervention Service: Young people involved in organised crime. Prifysgol Caeredin

Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (2021). *National Strategic Assessment of Serious and Organised Crime.*

Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (2022). Annual plan 2022-2023: Leading the UK's Fight to Cut Serious and Organised Crime. https://www.nationalcrimeagency.gov.uk/who-we-are/publications/594-nca-annual-plan-2022-23/file

Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (2023). *National Strategic Assessment 2023 for Serious and Organised Crime*. https://nationalcrimeagency.gov.uk/nsa-modern-slavery-and-human-trafficking

Pearce, J.J., Hynes, P. a Bovarnick, S. (2009). *Breaking the wall of silence: Practitioners' responses to trafficked children and young people*. NSPCC. Prifysgol Bedfordshire.

Radcliffe, P., Roy, A., Barter, C., Tompkins, C. a Brooks, M. (2020). A qualitative study of the practices and experiences of staff in multidisciplinary child sexual exploitation partnerships in three English coastal towns. *Social Policy & Administration*, *54*(7), 1215-1230.

Shaw, J. a Greenhow, S. (2020). Children in Care: Exploitation, Offending and the Denial of Victimhood in a Prosecution-led Culture of Practice, *The British Journal of Social Work*, 50(5), 1551–1569.

Sturrock, R. a Holmes, L., (2015). *Running the Risks: The links between gang involvement and children going missing*. Gorffennaf 2015. Catch 22. Missing People.

Wigmore. J. (2018). *Recognising and acting on signs of 'county lines' child exploitation. A case study*. Niche Health a Social Care Consulting.

## Cydnabyddiaethau

Hoffai'r tîm ymchwil ddiolch i'r partneriaid a'r staff a roddodd o'u hamser i siarad â ni. Hoffem hefyd ddiolch i Sharon Maciver a'r pedwar rheolwr am eu cymorth parhaus o ran y gwerthusiad.

Rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r bobl ifanc a'r gofalwyr a gytunodd i siarad â ni am brofiadau anodd yn eu bywydau.

## Awduron a chyfranwyr

Nina Maxwell, Jonathan Ablitt, Verity Bennett, Adam Williams, Zoe Bezeczky, Megan Nightingale, Sarah Thompson ac Anne Crowley

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a**

CASCADE: Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol i Blant
Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol
Prifysgol Caerdydd
SPARK
Parc Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd
Heol Maendy
Caerdydd
CF24 4HQ
CASCADE@cardiff.ac.uk
ComplexSafeguardingWales.org.uk